**SEMESTER DAU 2023-2024**

**PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

**ADRAN GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL**

# GW20120 CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL: SAFBWYNTIAU A THRAFODAETHAU

Amser a ganiateir: **2 AWR**

**Atebwch DDAU gwestiwn, UN cwestiwn o BOB adran**

**NI CHANIATEIR CYFRIFIANELLAU**

GALL MYFYRWYR GYFLWYNO ATEBION I’R PAPUR HWN YN Y GYMRAEG NEU’R SAESNEG.

Ar ôl eistedd, caiff myfyrwyr lenwi blaenddalen y llyfryn ateb a'r daflen

**PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR CWESTIYNAU ARHOLIAD DROSODD TAN EICH BOD WEDI CAEL CYFARWYDDYD I WNEUD HYNNY.**

**ADRAN 1**

1. Cymharwch a gwrthgyferbynnwch y dealltwriaeth o anarchiaeth a geir mewn **dwy** ddamcaniaeth wahanol o Gysylltiadau Rhyngwladol. Beth yw goblygiadau'r dealltwriaethau hynny i'r posibiliad o newid mewn gwleidyddiaeth ryngwladol?

2. Pam mae rhai ysgolheigion yn gwneud defnydd o gysyniad 'geowleidyddiaeth' i ddeall natur gwleidyddiaeth gyfoes? Beth yw rhai o'r buddion a'r canlyniadau gwael a allai o bosib ddod o'r datblygiad hwn.

3. Ai fel canlyniad cyfalafiaeth neu fel cynnyrch strwythur y system ryngwladol y mae deall imperialaeth orau?

4. Sut mae'r ddealltwriaeth o ryfel yn newid drwy gynnwys dadansoddiad o ddylanwad rhywedd?

5. Beth yw'r cysyniad mwyaf priodol ar gyfer astudio gwleidyddiaeth ryngwladol: system, cymdeithas neu ymerodraeth?

**ADRAN 2**

1. Pa fath o anghytuno a geir rhwng ysgolheigion Cysylltiadau Rhyngwladol o ran natur a phwrpas damcaniaethu? Beth ydych chi'n ei gredu y dylai pwrpas damcaniaeth Cysylltiadau Rhyngwladol fod a pham?

2. Amlinellwch rai o'r prif resymau pam mae angen ei chysyniadau a'i safbwyntiau damcaniaethol ei hun ar wleidyddiaeth *ryngwladol*. Gwnewch hyn gan gyfeirio at o leiaf **ddau** safbwynt damcaniaethol.

3. Beth yw cryfderau a gwendidau damcaniaethau Cysylltiadau Rhyngwladol sy’n rhoi pwyslais ar bwysigrwydd ffactorau economaidd? Trafodwch o leiaf **ddwy** ddamcaniaeth.

4. Trafodwch **un** mater, ddigwyddiad neu broses mewn gwleidyddiaeth ryngwladol gyfoes gan gyfeirio at o leiaf **ddwy** ddamcaniaeth. Ym mha ffyrdd gallai’r eglurhad neu’r ddealltwriaeth a ddarperir gan y damcaniaethau ar y pwnc fod yn wahanol neu gytuno â’i gilydd.

**5.** Ydy maes damcaniaeth Cysylltiadau Rhyngwladol fel y mae wedi ei amlinellu ar y modiwl hwn yn ddigonol er mwyn deall gwleidyddiaeth ryngwladol yn yr unfed ganrif ar hugain? Pam hynny neu pam lai?